Tiger Bay and the World
THE HERITAGE & CULTURAL EXCHANGE
Bae Teigr a'r Byd
Y GYFNEWIDFA DREFTADAETH A DIWYLLIANT

## Cyflwyniad

Mae Bae Teigr a’r Byd, *Tiger Bay and the World (TBW)*, yn elusen gymunedol sy’n anelu at gofnodi’n llawn dreftadaeth ac amrywiaeth ddiwylliannol Bae Teigr a Dociau Caerdydd. Nod ein prif brosiect yw trefnu a chreu archif ddigidol a chatalog o’r deunydd hanesyddol rydym wedi’i gasglu. Mae hyn yn cynnwys dros 7,000 o ffotograffau, hanesion bywyd a straeon wedi’u recordio ar sain a fideo, ynghyd ag amrywiaeth eang o ddogfennau. Mae’r holl ddeunydd hwn wedi’i roi, ac yn parhau i gael ei roi, drwy roddion.

Heb y prosiect hwn, gallai’r deunydd unigryw a gwerthfawr hwn, sydd o bwysigrwydd mewn cyd-destunau Cymreig a byd-eang, gael ei golli i genedlaethau’r presennol a’r dyfodol. Yn ogystal, ni fyddai cyfoeth ac amrywiaeth ddiwylliannol Bae Teigr a Dociau Caerdydd yn cael eu cydnabod, eu dathlu na’u defnyddio i ddysgu gwersi gwerthfawr. Fe wnaethom newid ein henw o Y Gyfnewidfa Treftadaeth a Diwylliant, *The Heritage & Cultural Exchange*, i Bae Teigr a’r Byd er mwyn adlewyrchu’n well ein meysydd arbenigedd a’n gwaith o archwilio a dehongli’r dreftadaeth hon. Rydym wedi datblygu cyfres o adnoddau gwybodaeth a dysgu i chi eu defnyddio, sy’n canolbwyntio ar ein cymuned a’i harchif.

## Cefndir

Datblygodd Bae Teigr a Dociau Caerdydd oherwydd y diwydiant glo. Dechreuwyd adeiladu Dociau Caerdydd o 1839 gan Farcwis Biwt i hwyluso allforio glo o Faes Glo De Cymru. Cwblhawyd Cyfnewidfa Lo Caerdydd ym 1888 a phennodd bris glo ledled y byd. Glo Cymru a bwerodd y byd ac yn enwedig ehangiad trefedigaethol Prydain.

Daeth llongau a oedd yn allforio glo ledled y byd â phobl yn ôl i Gaerdydd ac ymsefydlodd llawer ym Mae Teigr. Daeth yr ardal yn un o'r cymunedau amlddiwylliannol, amlieithog, aml-ffydd hynaf a mwyaf amrywiol yn y DU gan fod pobl o dros 50 o wahanol genhedloedd yn byw yno. Roedd yr hen gydlyniant cymunedol byd-eang hwn yn anarferol mewn hanes ac felly mae'n werthfawr i'w archwilio yng nghyd-destun nawr, wrth i ni barhau yng Nghymru ac ar draws y Byd i weithio tuag at chwalu gormes hiliol, rhaniadau a gwahaniaethu. Mae gwaith sy'n canolbwyntio ar gydlyniant cymunedol ar draws pob agwedd ar gymdeithas ac mewn addysg yn teimlo hyd yn oed yn fwy brys, ac mae'n hanfodol ein bod yn cofnodi, yn deall ac yn rhannu treftadaeth ddiwylliannol Bae Teigr a Dociau Caerdydd. O fewn ein casgliadau, mae gennym gyfle gwych i rannu straeon am gytgord cymunedol.

## Sut i ddefnyddio ein hadnoddau

Mae gan Bae Teigr a'r Byd (TBW) gasgliad helaeth o ffotograffau, recordiadau sain a deunyddiau ffynhonnell gwreiddiol sy'n cynnig mewnwelediad gwerthfawr i bwysigrwydd Dociau Caerdydd yn hanes cymdeithasol ac economaidd Cymru a'r Deyrnas Unedig. Mae llawer o'r deunydd yn ymwneud yn benodol â hanes y dynion a ddaeth o bob rhan o'r Ymerodraeth Brydeinig ac o'r gwledydd yr oedd Prydain yn masnachu â hwy. O ganlyniad, datblygodd poblogaeth unigryw ac amrywiol mewn ardal gymharol fach o Gaerdydd. Gall dewis un eitem neu ragor fod yn fan cychwyn i chi archwilio'r casgliad yn eich gwaith, eich dysgu neu'ch ymchwil eich hun, gan ddilyn eich trywydd annibynnol eich hun drwy ein harchifau i weld i ble y bydd yn eich arwain.

Mae'r wybodaeth / adnoddau addysgol a gyd-gynhyrchwyd gan Bae Teigr a'r Byd yn gosod cynhwysiant, amrywiaeth, mudo, dinasyddiaeth fyd-eang a gwrth-hiliaeth wrth wraidd eu cynnwys. Mae rhai o'n hadnoddau wedi'u targedu at gofnodi ac annog gweithgareddau a chyfranogiad rhwng cenedlaethau ymhlith pobl o grwpiau penodol sydd heb gynrychiolaeth ddigonol, gan ystyried hil, ffydd, iaith a grwpiau oedran – rhai a ystyrir i fod â Nodweddion Gwarchodedig. Weithiau mae ein deunyddiau yn cynnwys 'terminoleg y cyfnod', er enghraifft Croendywyll (Coloured), estron (foreign), Sgandinafiaid (Scandinavians) a mwy. Defnyddiwyd y geiriau / ymadroddion hyn ar y pryd ac rydym yn teimlo bod y geiriau hyn fel disgrifyddion yn dangos yr agweddau a oedd yn bodoli bryd hynny. Mae terminoleg yn gynnil, yn gymhleth, yn llawn emosiwn ond yn newid yn barhaus ac mae'n debyg na fydd byth yn berffaith. Mae problemau hyd yn oed gyda therminoleg gyfredol fel Treftadaeth y Mwyafrif Byd-eang, Lleiafrif Ethnig neu BAME. Gellir archwilio'r ddealltwriaeth o derminoleg yn eich gwaith eich hun. Cymerwch olwg hefyd ar adnoddau DARPL ynghylch terminoleg.

Mae'r casgliad hwn o adnoddau sy'n gyfeillgar i ymholi / athrawon / dysgwyr wedi'u cynllunio i gael eu haddasu, i gael eu defnyddio'n ddetholus ac yn hyblyg yn ôl y cyd-destun, ac i gefnogi ystod eang o unigolion i feddwl yn feirniadol am fudo, integreiddio a chydlyniant cymunedol, adnewyddu trefol, a threftadaeth hanesyddol dociau Caerdydd. Gellid hefyd eu defnyddio o fewn Cwricwlwm i Gymru mewn ysgolion, colegau a phrifysgolion gan eu bod yn dod o ffynhonnell ddilys a chredadwy.

Yng nghyd-destun Cwricwlwm i Gymru, mae'r cysyniad o Gynefin yn galluogi athrawon a dysgwyr i ddysgu mwy am debygrwydd a gwahaniaethau mewn profiadau o'r "fan lle'r ydym yn perthyn". Mae myfyrio ar y cysyniad hwn o fewn ardal amrywiol a hanesyddol gyfoethog Tre-biwt, Caerdydd, yn herio athrawon yn gadarnhaol i ystyried sut i gysylltu eu hysgolion / cymunedau dysgu eu hunain yng Nghymru a'r dreftadaeth tra-leol â safbwyntiau ehangach ledled Cymru ac yn fyd-eang drwy ddysgu, addysgu, addysgeg ac ymgysylltu cymunedol gwrth-hiliol ac ôl-drefedigaethol.

## Prif nodau ein hadnoddau addysgol yw:

- Gwahoddiad agored i weithio gyda mwy o sefydliadau dysgu (ysgolion / colegau / Sefydliadau Addysg Uwch) i gefnogi gwireddu dibenion a nodau Cwricwlwm i Gymru, gan gyd-ddatblygu adnoddau newydd mewn cydweithrediad ag athrawon / ymarferwyr / addysgwyr gan ddefnyddio ein deunydd ffynhonnell gynradd.
- Darparu cyfleoedd i gefnogi a herio addysgwyr, ymchwilwyr a dysgwyr i ddysgu mwy am debygrwydd a gwahaniaethau mewn profiadau o'r "fan lle'r ydym yn perthyn".
- Mynd i'r afael â stereoteipiau negyddol drwy amlygu cyflawniadau hanesyddol ym maes chwaraeon a diwylliant. Mae ein gwaith yn tynnu sylw at bobl a oresgynnodd rwystrau hiliaeth, tlodi a gwahaniaethu er mwyn perfformio ar y lefelau uchaf, gan ddod yn enwog ledled y byd, a chreu cyfle i ddathlu'r effaith hon yn fwy yng Nghymru.
- Gosod ystyriaethau hanesyddol ynghylch rôl ac amrywiaeth credoau a sefydliadau crefyddol - gan gynnwys sefydlu Eglwys Uniongred Roegaidd, Eglwys Norwyaidd a rhai o'r mosgiau cynharaf yn y DU, yn ogystal ag effaith eglwysi Cristnogol anghydffurfiol a chenadaethau - wrth galon lles, llesiant a gwleidyddiaeth.
- Casgliad o ffilmiau byrion sy'n cynnwys enghreifftiau o gymuned Bae Teigr a'r Dociau, wedi'u cynllunio i helpu ystod eang o wylwyr i feddwl yn feirniadol am fudo, integreiddio a chydlyniant cymunedol, adnewyddu trefol, a threftadaeth hanesyddol dociau Caerdydd.
- Hyrwyddo treftadaeth ac amrywiaeth ddiwylliannol Bae Teigr a Dociau Caerdydd, gan ddefnyddio'r rhain i hysbysu, addysgu a thrawsnewid bywydau'r rhai sy'n dymuno cael gwybodaeth a dysgu.

## Beth allwn ni ei gynnig i addysgwyr / ymchwilwyr / dysgwyr drwy ein hadnoddau?

Mae cyfeiriad a chefnogaeth wleidyddol Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol (ArWAP), ynghyd â chynnwys dysgu am erledigaeth, cyfraniadau a hanesion pobl Ddu, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig yn y disgwyliadau gorfodol ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru, yn amlygu perthnasedd ac angen i archif TBW fod yn hygyrch ac yn hysbys. Gan fod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) Llywodraeth Cymru yn nodi "Cymru o gymunedau cydlynus", ynghyd ag ArWAP, mae'n gwneud synnwyr ein bod yn tynnu ar gyfoeth byd-eang hanes Cymru yn awr ac i'r dyfodol. Nid yw hyn yn rhywbeth newydd. Gall bylchau mewn gwybodaeth a dealltwriaeth elwa o hanes Bae Teigr a'i thrigolion amlhiliol, amlddiwylliannol sydd wedi byw ac wedi gweithio gyda'i gilydd dros genedlaethau.

Mae Bae Teigr a'r Byd a phobl o'n cymuned wedi bod yn ganolog ac yn hanfodol i lawer o'r gweithgarwch ledled Cymru a'r byd ehangach er mwyn cyd-arwain gwaith gwrth-hiliol a dad-drefedigaethol, ac mewn rhai achosion maent wedi bod ar flaen y gad yn y broses newid. Mae TBW wedi cyd-ddylunio adnoddau sy'n apelio at ystod eang o anghenion dysgwyr, ac wedi defnyddio lleisiau dilys a safbwyntiau'r cymunedau, gyda phrofiadau bywyd yn ganolog i'r materion sy'n cael eu trafod, er mwyn llywio a hysbysu'r broses o'u cyd-greu.

**Mae'r adnoddau rydym yn eu cynnig yn cynnwys:**

• Cyfres o gyfweliadau byr wedi'u ffilmio gyda phobl a gafodd eu magu yn Nhre-biwt;
• Straeon wedi'u hanimeiddio am arwyr chwaraeon ynghyd â naratif cyd-destunol;
• E-lyfrau sy'n ymdrin â phwnc crefydd a lles yn Nhre-biwt rhwng y ddau Ryfel Byd, gan gynnwys cwestiynau sy'n ysgogi meddwl ac yn herio safbwyntiau.

Byddai'r syniadau a'r cwestiynau sydd wedi'u cynnwys yn yr adnoddau yn ddelfrydol i'w haddasu o fewn eich cyd-destun eich hun a'ch cynllunio ar gyfer eich addysgu a'ch dysgu proffesiynol ochr yn ochr â'r dysgwyr yn eich ystafelloedd dosbarth / amgylcheddau dysgu. Mae TBW yn dychmygu, fel addysgwyr, y byddwch yn ystyried eich dysgu proffesiynol eich hun yn agored wrth archwilio cynnwys yr adnoddau gwahanol. Efallai eich bod wedi profi straeon Cymreig tebyg yn ystod eich taith ddysgu eich hun, neu efallai nad ydych wedi gwneud hynny o'r blaen. Rydym hefyd yn eich gwahodd i'w defnyddio fel cyfle i rannu ymdeimlad o'ch safbwyntiau eich hun ar Gynefin gyda'ch dysgwyr, gan gymryd eich lle yn agored o fewn y cylchoedd dysgu yn eich ystafell ddosbarth.

Mae ein hadnoddau hefyd yn anelu at gyfrannu tuag at genhadaeth Cymuned Ymarfer DARPL ym maes addysg, sef cefnogi'r gwaith o addysgu hanesion a phrofiadau pobl Ddu, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig yn y cwricwlwm drwy feithrin ymdeimlad o gymuned, gwrth-hiliaeth, dad-drefedigaethu a dinasyddiaeth fyd-eang.

Yn ehangach, mae ein gwaith yn cyfrannu at Gynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol (ArWAP) Llywodraeth Cymru ac at agwedd Diwylliant, Treftadaeth a Chwaraeon DARPL, gan anelu at gyfrannu at ddathlu amrywiaeth wych Cymru — ei hamrywiaeth hanesyddol, gyfredol ac yn y dyfodol.

Hoffem ddiolch i bob un o'n Gwirfoddolwyr sydd wedi gwneud y gwaith yma ac hefyd i'n arianwyr a'n cefnogwyr sydd wedi cefnogi'r gwaith. Dyma restr ohonnynt:

Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol a ariannodd y prosiect

Staff Archifau Morgannwg,

Dysgu Proffesiynol Amrywiaeth a Gwrth-hiliol (DARPL),

Dr. Abdul-Azim  Ahmed, Is-gyfarwyddwr canolfan astudio Islam yn y DU,

Staff Amgueddfa Caerdydd,

Llyfrgell Genedlaethol Cymru/National Library of Wales,

Kyle Legall yn Higher Graphics,

Gavin Porter, Llinos Misra,

ac wrth gwrs, Ymddiriedolwyr Bae Teigr a'r Byd.